`

CYPE(5)-16-20 – Papur i'w nodi 2

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 18 Mehefin 2020

Pwnc | Subject: **Diweddariad ar y rhaglen ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Annwyl Kirsty,

Fe fyddwch yn ymwybodol bod gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddiddordeb parhaus yn y rhaglen ddiwygio sydd ar y gweill i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rydym yn cydnabod y bydd amryw ffrydiau gwaith yn eich portffolio wedi'u haddasu o reidrwydd, er mwyn rheoli'r ymateb brys i'r pandemig Covid-19. Serch hynny, rydym yn ymwybodol o'r camau pwysig sy'n dal i fod angen eu cymryd er mwyn rhoi'r diwygiadau sy'n deillio o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith, a byddem yn ddiolchgar o gael y canlynol:

- diweddariad ar yr amserlenni ar gyfer rhoi camau nesaf y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith, a
- syniad o ran a fyddwch yn cyhoeddi ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad y llynedd ar y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol, cyn gosod y fersiwn derfynol gerbron y Senedd.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565